## Crynodeb o enghreifftiau ymarferol o blant sy'n derbyn gofal

| Awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn | Ble mae'r plentyn yn byw | Ble mae'r plentyn yn cael ei addysgu | Cyfrifoldeb am y plentyn |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | Yn byw yn Sir y Fflint | Yn cael addysg yn Sir y Fflint | Mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn cynnal y cynllun datblygu unigol (CDU). |
| Caerdydd | Yn byw ym Mhen-y-bont | Yn cael addysg yng Nghaerffili | Mae awdurdod lleol Caerdydd yn cynnal y CDU. |
| Casnewydd | Yn byw yn Lloegr | Yn cael addysg yng Nghasnewydd | Mae'r ysgol yn cynnal y CDU. |
| Ceredigion | Yn byw yn Lloegr | Yn cael addysg yn Lloegr | Ysgol i benderfynu ar yr angen a'i gefnogi. Os nad yw'r ysgol yn gallu diwallu'r angen, dylai gysylltu â'r awdurdod lleol i ystyried asesiad o anghenion addysg, iechyd a gofal (EHC). |
| Torfaen | Yn byw yn Nhorfaen | Yn cael addysg yn Lloegr | Mae awdurdod lleol Torfaen yn cynnal y CDU. |
| Abertawe | Yn byw yng Nghaerdydd | Yn cael addysg yng Nghaerdydd | Mae awdurdod lleol Abertawe yn cynnal y CDU. |
| Sir Benfro | Yn byw yn Sir Fynwy | Yn cael addysg yn Lloegr | Mae awdurdod lleol Sir Benfro yn cynnal y CDU. |
| Awdurdod lleol Lloegr | Yn byw yn Lloegr | Yn cael addysg yn Wrecsam | Ysgol i benderfynu ar yr angen a'i gefnogi. Os nad yw'r ysgol yn gallu diwallu'r angen, dylai gysylltu â'r awdurdod lleol i ystyried asesiad o anghenion addysg, iechyd a gofal (EHC). Yr ysgol yng Nghymru yn penderfynu ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a rhaid i'r ysgol lunio a chynnal CDU os oes angen. |

| Awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn | Lle mae'r plentyn yn byw | Lle mae'r plentyn yn cael ei addysgu | Cyfrifoldeb am y plentyn |
|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol Lloegr | Yn byw ym Mhen-y-bont | Yn cael addysg yng Nghaerdydd | Yr ysgol i benderfynu ar yr angen a'i gefnogi. Os yw ysgol yn penderfynu bod gan blentyn ADY, mae'n gallu cyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol cyfrifol (Caerdydd yn yr enghraifft hon) yn hytrach na llunio'r CDU, ond dim ond os yw'n credu bod ADY y plentyn yn gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) nad yw'r ysgol yn gallu ei darparu'n rhesymol, ei hasesu'n ddigonol, na'i phenderfynu'n ddigonol. |
| Awdurdod lleol Lloegr | Yn byw ym Mro Morgannwg | Yn cael addysg ym Mro Morgannwg | Yr ysgol i benderfynu ar yr angen a'i gefnogi. Os yw ysgol yn penderfynu bod gan blentyn ADY, gall gyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol cyfrifol (Bro Morgannwg yn yr enghraifft hon) yn hytrach na llunio'r CDU, ond dim ond os yw'n credu bod ADY y plentyn yn gofyn am DDdY nad yw'r ysgol yn gallu ei darparu'n rhesymol, ei hasesu'n ddigonol, na'i phenderfynu'n ddigonol. |